

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Dewi Evans

Nos Lun Ebrill 11eg 2022 am 7.30 y.h

Cofnodion

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd Cyng. Gethin Pyrs

1. **Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Dewi LI Evans, Alun Owen
2. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Gerallt Jones, Gethin Pyrs, Edmund Rees ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Mawrth:** Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan ER gyda GBJ yn eilio
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
 - 5.1. Dim
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1. Dim
7. **Datganiadau cyfrifyddu 2020-21:**
 - 7.1. Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol:-
'Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, bod yr wybodaeth yr adroddir arni yn y Ffurflen Flynyddol hon'
 - 7.2. Derbyniwyd yr Archwiliad Blyneddol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Doedd dim materion yn codi. Y ffurflen wedi ei chymeradwyo a'i derbyn gan GBJ yn cynnig ac ER yn eilio ac oll o'r Cynghorwyr yn ei chymeradwyo.
8. **Lwfansau Aelodau:**
 - 8.1. Derbyniwyd llythyr wedi ei llofnodi gan oll o'r Cynghorwyr yn nodi nad ydynt am dderbyn costau na thaliadau yn rhinwedd ei swyddi.
9. **Ffurflen Monitro:**

Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
10. **Mantolen Banc:**

Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn
11. **Talu Anfoneb:**

Cynigiodd GJ gydag Er yn eilio talu costau'r clerics am 4 mis o Ragfyr i Fawrth o **£130.90** talwyd gyda siechrhif **100365** (S150)
12. **Ffurflen Flynyddol 2021-22:**
 - 12.1. Edrychwyd dros y fantolen a chafwyd popeth mewn trefn.
 - 12.2. Cytunwyd ar i Iona Edwards, cyfrifydd Llanrwst archwilio mantolen 2021-22
13. **Trafod oriau a chyflog y clerics:**

Nodiadau gan Cyng. Edmund Rees o bwyllgor 11/04/22 *'Cynigwyd ac eiliwyd codiad o £1.34c yr awr yng nghyflog y clerics sef i £12.00 yr awr. Mae hun yn ychydig yn uwch na SCP13 a gydunwyd efo'r NJC ar gyfer 2021/2022. Hefyd cynigiwyd ac eiliwyd cynnydd yn oriau'r Clerics o 15 y mis i 17awr, felly fydd y cyflog o fis yma ymlaen yn £204.00 y mis. Yn ôl canllawiau NALC bydd angen ad-daliad codiad o £1.34 am 15 awr y mis yn ôl i Ebrill 2021, cyfanswm am 12 mis o £241.20'. Talwyd y cyfanswm o £241.20 + £44.00 (gwahaniaeth mis Ebrill 22 = **£281.20** gyda siec rhif **100366** (S150)*
14. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:** Darllenwyd adroddiad diwedd tymor gan Garffild Lewis gan ei fod yn ymdddeol o fod yn Gynghorydd Sirol. Cytunwyd i anfon nodyn iddo yn diolch am ei wasanaeth a'i gefnogaeth.
15. **Unrhyw fater arall:**
 - 15.1. Derbyniwyd neges gwefan yn mynegi pryder fod gôr-yrru ar yr A5 ac yn gofyn am gyflymder o 50 milltir yr awr gan fod sawl damwain o fewn y 3 wythnos diwethaf rhwng Cerrigydrudion a Pentrefoelas. Cytunwyd ar yrru'r e-bost ymlaen i'r Adran Briffyrdd yng Nghonwy.
16. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** – cyfarfod blyneddol **Mai 9fed 2022**

Arwyddwyd _____ Cadeirydd

Dyddiad 09.05.22

